# Grŵp Cyswllt Cymunedol Parc Ynni Twyn Hywel

## Dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2026

### Presenoldeb:

**Yn bresennol**

- Eluned Lewis (EL) – Rheolwr Buddsoddi Cymunedol, Bute Energy
- Kadun Rees (KR) – Cydlynydd Materion Allanol, Bute Energy
- Gareth Edwards (GE) – Rheolwr Cyflawni Prosiectau, Bute Energy
- Garry Hession (GH) – Natural power
- Mark Nickolson (MN) – Natural Power
- Sean Morgan (SM) – Cynghorydd Sir
- Brenda Miles (BM) – Cynghorydd Sir
- Dave Brunton (DB) – Canolfan Galw Heibio Ieuenctid Senghenydd
- Patricia Bull (PB) - Partneriaeth Aber Valley
- Sadie Pash (SP) – Partneriaeth Aber Valley
- Colin Langford (CL) - Partneriaeth Aber Valley
- Joanne Davies (JD) – Clwb Rygbi Senghenydd
- Natalie Sargent (NS) – Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

**Ymddiheuriadau**

- Colin Mann (CM) – Cynghorydd Sir
- Hywel Gornow (HG) – Cynghorydd Sir
- Angela karadog – Cynghorydd Sir
- Lyn Bowen (LB) – Clwb Rygbi Nelson
- Kim Allen (KA) – Cyngor Cymuned Nelson
- Owen Hughes (OH) – Cynrychiolydd ieuenctid lleol
- Gina Jones (AP) – GAVO

### Trosolwg o'r agenda

1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau
2. Diweddariad am y prosiect – Gareth Edwards, Rheolwr Cyflawni Prosiectau, Bute Energy / Natural Power, Rheolwr Rhaglen
3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid, CIO a chynnydd y panel lleol – Eluned Lewis, Bute Energy
4. Trafodaeth rhyddhau cynnar – Eluned Lewis, Bute Energy

5. Unrhyw Fater Arall
6. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

## Trafodaethau a nodiadau

### 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

*Croesawodd KR ac EL bawb i'r cyfarfod, a chynhaliwyd cyflwyniadau o amgylch y bwrdd. Nododd KR yr holl ymddiheuriadau a dderbyniwyd.*

### 2. Diweddariad am y Prosiect

- Amlinellodd GE y gwaith dros y cyfnod blaenorol, sy'n cynnwys y canlynol:
    - Amodau cynllunio cyn dechrau terfynol CBSC wedi'u cymeradwyo;
    - Cymeradwyaeth SAB ar gyfer Parsel A (prif ffordd fynediad y safle) wedi'i sicrhau
    - Dyluniadau manwl yn cael eu cwblhau'n derfynol
    - Arolygon cyfleustodau a thopograffig ychwanegol wedi'u cwblhau
    - Arolwg gwaith daear archaeolegol wedi'i gwblhau
    - 90% o'r gwaith clirio llystyfiant wedi'i gwblhau
    - Trac mynediad galluogi wedi'i adeiladu wrth fynedfa'r safle
    - Safle gwaith galluogi wedi'i sefydlu
- Wedyn amlinellodd GE y gwaith i'w ddisgwyl dros yr wythnosau / misoedd nesaf, gan gynnwys y canlynol:
    - Gorffen y gwaith o glirio'r safle
    - Gosod y prif safle adeiladu yn ei le
    - Gwaith ar y twll sy'n cael ei gloddio - ffensio, stribed uwchbridd, tynnu gorlwyth, echdynnu a phrosesu cerrig
    - Trac mynediad, safleoedd caled y tyrbinau ac adeiladu draeniau: canolbwyntio ar fynedfa'r safle i groesfan ffordd gyhoeddus, croesfan ffordd gyhoeddus i grŵp y tyrbinau dwyreiniol
    - Adeiladu llwyfandir is-orsaf THEP
    - Gosod safle adeiladu is-orsaf Cilfynydd yn ei le
    - Gwaith daear is-orsaf Cilfynydd: gosod dwythellau, draeniau a sylfeini yn eu lle
    - Gwaith sifil cebl grid - ffos agored a drilio cyfeiriadol llorweddol
- Rhoddodd GE grynodeb o'r arolwg ecolegol cyn adeiladu (edrychwch ar y sleidiau am fanylion llawn).
- Cyflwynodd GH ac MN Natural Power. Mae'r tîm yn rheoli tua 40,000MW o brosiectau ynni ledled y DU ac mae ganddo dîm amlddisgyblaethol sy'n

cynnal ymchwiliadau tir a gweithgareddau adeiladu. Ar hyn o bryd mae Natural Power yn rheoli tua 33% o seilwaith ynni adnewyddadwy'r DU.

- Cyflwynodd GE ganfyddiadau'r arolwg ecolegol a chanlyniadau'r arolwg archaeolegol (edrychwch ar y sleidiau). Cadarnhaodd GH y bydd yr holl fesurau lliniaru ecolegol angenrheidiol yn eu lle cyn i unrhyw waith fynd rhagddo.
- Rhoddodd GE drosolwg o'r gofynion o ran traffig adeiladu. (edrychwch ar y sleidiau).

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau

- SM: gofynnodd faint o ddeunydd fyddai'n cael ei echdynnu o'r twll sy'n cael ei gloddio a beth oedd y bwriad o ran ei ddefnydd. GE: Efallai y bydd tua 50,000 metr ciwbig o gerrig yn cael eu hechdynnu, yn dibynnu ar yr ansawdd. Bydd y deunydd yn cael ei ddefnyddio fel deunydd llenwi cyffredinol fel rhan o waith daear y safle.
- SM: Cododd bryderon ynghylch gwaith sylweddol yn Is-orsaf Cilfynydd yn Nelson a'r effaith gronnol ar draffig lleol. GE: Cadarnhaodd fod cynllun i anfon llythyrau at drigolion ar gyfer eiddo o amgylch Heol Llanfabon. SM: Gofynnodd am gynnwys cydymffurfiaeth contractwyr â therfynau cyflymder yn yr ohebiaeth.
- SM: Gofynnodd a fyddai'r traciau mynediad i'r safle yn cael eu cwblhau dros y misoedd nesaf. GE: Cadarnhaodd y bydd y traciau mynediad yn parhau i gael eu hadeiladu a'u cwblhau yn ystod y cyfnod hwn.
- SM: Gofynnodd pwy fyddai'n ymgymryd â'r gwaith peirianneg sifil ar gebl y grid. GE: Cadarnhaodd y bydd H&MV Engineering yn cwblhau'r gwaith hwn.
- NS: Gofynnodd a oedd unrhyw ymrwymiadau gwerth cymdeithasol gan y contractwyr wedi'u cyhoeddi. EL: Cadarnhaodd fod tîm y prosiect wedi bod yn gweithio gyda'r holl gontractwyr ar ymrwymiadau gwerth cymdeithasol a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu cyn bo hir. KR: Anogodd yr aelodau i e-bostio unrhyw syniadau o ran gwerth cymdeithasol i'w hystyried.
- SM: Awgrymodd arwyddion ychwanegol mewn cyffyrdd allweddol i atal cerbydau mawr rhag ceisio cael mynediad i ffyrdd anaddas.
- SM: Gofynnodd am yr amseroedd ar gyfer danfon tyrbinau. GH: Dywedodd bod disgwyl i'r danfon ddigwydd dros gyfnod o wyth wythnos a bydd hyn yn dibynnu ar argaeledd yr heddlu, ond bydd y danfon yn digwydd tua Gwanwyn 2027.

- CL: Gofynnodd am uchder tyrau'r tyrbinau. GE: Cadarnhaodd y byddai'r tyrau tua 119 metr o uchder.
- BM: Gofynnodd am faint o addasiadau sydd eu hangen ar hyd y llwybr trafnidiaeth o Nelson i'r safle. GE: Cadarnhaodd y gellir adolygu'r llwybr trafnidiaeth llawn mewn cyfarfod o'r GCC yn y dyfodol.
- NS: Gofynnodd a fyddai angen i drigolion symud eu cerbydau dros nos efallai yn ystod y gwaith o ddanfon y tyrbinau. GE: Dywedodd fod hyn yn annhebygol.
- SM: Gofynnodd am wybodaeth fanwl am niferoedd y cerbydau a'r mathau o symudiadau i helpu i hysbysu'r cyhoedd. GE: Nododd na fyddai'r gwaith o ddanfon y tyrbinau'n digwydd am tua 11 mis arall a bydd cyfathrebu helaeth â'r trigolion yn digwydd ymlaen llaw. KR: Cadarnhaodd fod dosbarthu llythyrau i drigolion a chyfathrebu cymunedol ehangach yn cael eu datblygu fel rhan o strategaeth gyfathrebu ehangach i roi gwybod i gymunedau lleol am effeithiau traffig sydd i ddod.

**Cam Gweithredu**

- Pawb: anfon e-bost at dîm Twyn Hywel gydag unrhyw awgrymiadau neu geisiadau o ran gwerth cymdeithasol

## 3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid, CIO a chynnydd y panel lleol

*Rhoddodd EL ddiweddariad am ymgysylltu diweddar â rhanddeiliaid, y CIO sydd newydd ei ffurfio, a recriwtio panel grantiau lleol.*

- Diolchodd EL i'r aelodau am fynychu'r digwyddiad lansio adeiladu ym mis Mehefin yng Nghlwb Rygbi Nelson. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar 26 Mehefin yng Nghlwb Rygbi Nelson ac roedd yn nodi carreg filltir Parc Ynni Twyn Hywel yn symud i'r cam adeiladu, gyda sesiwn friffio i randdeiliaid yn y bore (gwahoddiad aelodau GCC wedi'i gynnwys) a sesiwn galw heibio cyhoeddus yn y prynhawn. Wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth am beth i'w ddisgwyl yn ystod y gwaith adeiladu, cyfarfod ag un o'r cyflenwyr allweddol, deall mwy am waith y tîm Buddsoddiad Cymunedol a bwydo i wybodaeth leol am y gymuned.
- Rhoddodd EL ddiweddariad ar sefydlu'r Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) cenedlaethol. Mae cofrestriad y CIO yn parhau i fynd rhagddo gyda'r Comisiwn Elusennau.
- Nododd EL fod y ceisiadau ar gyfer y panel cymunedol lleol wedi cau yn swyddogol, er bod modd cyflwyno datganiadau o ddiddordeb o hyd.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau

- Cyfeiriodd Colin Langford at anawsterau gyda gwneud cais ar gyfer y panel lleol, gan nodi ei fod wedi cau. Cam gweithredu: EL i wirio a yw'r ddolen yn fyw o hyd ac anfon e-bost at Colin ar ôl y cyfarfod i gadarnhau a oedd ei gais wedi'i dderbyn ai peidio.

**Cam Gweithredu**

- EL: dosbarthu gwybodaeth am y cais eto ar e-bost.

## 4. Trafodaeth rhyddhau cynnar

*Amlinellodd EL yr amrywiol opsiynau ar gyfer rhyddhau cronfeydd budd cymunedol yn gynnar.*

- Cadarnhaodd EL fod rhyddhau cyllid yn gynnar wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi. Mae'r gwaith ar fentrau ynni cymunedol yn parhau i fynd rhagddo. Mae'r asesiadau cychwynnol yn awgrymu y gallai prosiect hydro ynni cymunedol ar y safle fod yn ymarferol, gydag ymchwiliad pellach yn parhau.
- Gofynnodd EL i'r grŵp a ddylid clustnodi 25% o'r Gronfa Budd Cymunedol yn benodol ar gyfer prosiectau ynni cymunedol, neu a ddylai'r gronfa barhau ar agor gyda phrosiectau ynni cymunedol yn gwneud cais drwy'r broses safonol.
- NS: Datganodd ddiddordeb ar ran Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (CRT), sy'n edrych ar gyfleoedd ynni cymunedol ledled Cymru. Bydd CRT yn recriwtio aelod ymroddedig o staff yn fuan i gefnogi'r gwaith hwn.
- Gofynnodd EL i'r aelodau ystyried y symiau i'w dyrannu ar gyfer y rhyddhau cynnar (edrychwch ar y sleidiau am ragor o wybodaeth) a thrafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau

- Tynnodd yr aelodau sylw at yr angen am rôl ddatblygu bwrpasol i gefnogi mapio cymunedol, datblygu prosiectau, a meithrin capasiti cymunedol.

## 5. Unrhyw Fater Arall

- Cafodd yr holl faterion eraill sylw yn ystod y cyfarfod.

## 6. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

**Dyddiad:** Medi i'w gadarnhau

**Amser:** 18:30

**Lleoliad:** I'w gadarnhau

**Daeth y sesiwn i ben.**

## Camau gweithredu o'r cyfarfod

| Cam Gweithredu | Arweinydd |
|---|---|
| Anfon e-bost at dîm Twyn Hywel gydag unrhyw awgrymiadau neu geisiadau o ran gwerth cymdeithasol. | Pawb |
| Dosbarthu gwybodaeth am geisiadau i'r panel grantiau lleol eto ar e-bost. | EL |
| Casglu cyfeiriadau e-bost a hysbysu'r aelodau pan fydd y broses ymgeisio yn gwbl weithredol eto. | EL |